**Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig**
**RDC(3)-03-11 : Papur 1**

**Gwybodaeth am ddatblygiad y Strategaeth Fwyd a rôl y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod (FDAP).**

**Cyflwyniad i gyfarfod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar 10 Chwefror 2010 13:40-14:20 – Dr Haydn E Edwards**

**Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Diben y papur byr hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Is-bwyllgor am waith y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod yn ystod y 12 mis diwethaf, yn enwedig o ran paratoi'r Strategaeth Fwyd a'r gwaith sydd ar y gweill i baratoi Cynllun Cyflawni. Mae'r papur yn disgrifio'r broses o ddatblygu'r cynllun hefyd.

1.2 Er mwyn amlinellu ei hymrwymiad i greu Strategaeth Fwyd drosfwaol ar gyfer Cymru, mae Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi gofyn i mi, fel Cadeirydd y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod (FDAP), gydweithio â swyddogion o'r Adran Materion Gwledig ac adrannau eraill, pobl o'r diwydiant a defnyddwyr, i ystyried y ffordd orau o gyfeirio'r diwydiant er mwyn rheoli'r heriau sy'n ein hwynebu mewn amrediad cymhleth o faterion sy'n ymwneud â bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys cydbwyso'r cynnydd yn y galw am fwyd ac ynni â'r angen i reoli'n hadnoddau naturiol yn fwy sensitif er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol agos a'r dyfodol pell.

1.3 Felly, bydd angen i'r Strategaeth dalu sylw i faterion trawsbynciol fel iechyd, diwylliant bwyd ac addysg am fwyd, diogelu'r cyflenwad bwyd, cynaliadwyedd amgylcheddol, datblygiad economaidd a datblygiad cymunedol fel y gall fod yn sylfaen ar gyfer edrych ar bolisi bwyd yng Nghymru mewn ffordd integredig.

## 2. Y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod – y brif rôl

2.1 Cafodd y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod ei sefydlu'n wreiddiol dros ddegawd yn ôl (ei henw bryd hynny oedd Grŵp Cynghori'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth). Dyma brif gyfrifoldebau'r Bartneriaeth Gynghori ar hyn o bryd:

- Rhoi cyngor arbenigol i'r Llywodraeth ar bob mater sy'n ymwneud â bwyd;
- Cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Polisi a Strategaeth ym maes bwyd;
- Monitro cynlluniau gweithredu penodol; a
- Gweithredu fel "llysgenhadon" i'r Llywodraeth ar faterion Bwyd, ond heb gyfrifoldebau gweithredol.

## Y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod – strwythur

2.2 Cafodd aelodau arbenigol presennol y Bartneriaeth eu gwahodd i'r Bartneriaeth gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn dilyn proses benodi gyhoeddus. Mae llawer o'r aelodau'n cadeirio is-grwpiau arbenigol hefyd ac nid oes raid dilyn proses benodi ffurfiol er mwyn bod yn aelodau o'r rhain. Darperir gwasanaethau ysgrifenyddol a chymorth gweithredol ychwanegol gan staff yr Adran Materion Gwledig. Mae'r grŵpiau'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ar gyfartaledd ac maent yn cynnwys y Diwydiant Llaeth, Addysg a Hyfforddiant yn y gadwyn cyflenwi bwyd, Pysgodfeydd a Dyframaeth, Garddwriaeth, Bwyd Organig, Cich Coch a Datblygu Masnach. Yn ogystal, mae pedwar grŵp rhanbarthol (gogledd, canolbarth, de orllewin a de ddwyrain) ac mae'r rhain yn dwyn ynghyd randdeiliaid o wahanol gwmnïau bwyd a diod, sefydliadau, cyrff gwirfoddol a'r sector cyhoeddus. Eu prif dasg yw sicrhau cyfathrebu effeithiol ar faterion bwyd ledled eu rhanbarth.

2.3 Mae adolygiad o strwythur y Bartneriaeth a'i his-grwpiau yn cael ei chynnal ar hyn o bryd. Mae unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiad i fod i gael eu gweithredu ym mis Tachwedd 2011 pan ddaw tymor aelodau cyfredol y Bartneriaeth i ben.

**Aelodau cyfredol y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod (2011)**

| | |
|---|---|
| Dr. Haydn E. Edwards | |
| Alison Lea-Wilson | Kate Morgan |
| Dr David Lloyd # | Katie Palmer# |
| Dr Shyam Patiar | Phil Stocker # |
| Gwenda Thomas # | Yr Athro Nicholas Lampkin # |
| | Yr Athro Peter Midmore |
| Huw Rees # | Dai Davies # |
| Jenny Davies | Richard Parry Hughes# |
| Jeremy Percy# | Roger Hughes# |
| Jo Hughes | Terrig Morgan # |

#Mae'r bobl hyn yn cadeirio is-grwpiau

## 3 0. Datblygu'r Strategaeth

3.1 Rwyf wedi cydweithio'n agos â'r swyddogion i lunio cynllun i ddatblygu'r Strategaeth, ac wedi cadw mewn cysylltiad agos â'r gwaith uniongyrchol trwy'r amser. Roedd y gwaith yn cynnwys penodi'r ymgynghorwyr, yna llunio'r briff a'u cyfeirio yn dilyn y broses dendro. Ar y dechrau, y brif her oedd sicrhau bod yr holl faterion cymhleth ynglŷn â bwyd yn cael eu cynnwys. Canolbwyntiwyd ar fwyd – fel system yn hytrach nag ar un rhan o'r gadwyn cyflenwi bwyd.

3.2 Roedd y tîm llwyddiannus o ymgynghorwyr a benodwyd yn dod o Ganolfan Cysylltiadau Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas (BRASS) y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd tîm BRASS yn cynnwys saith academydd profiadol oedd wedi profi eu gallu mewn nifer o wahanol feysydd yn ymwneud â bwyd, sef yr Athro Terry Marsden, Dr. Adrian Morley, yr Athro Kevin

Morgan, yr Athro Robert Lee, Dr. Roberta Sonnino, Dr. Selyf Morgan a Kate Bailey. Roedd ganddynt brofiad uniongyrchol o weithio ar fentrau polisi cyhoeddus o bwys a pholisïau'n ymwneud â bwyd.

3.3 Bu modd i'r arbenigwyr craidd hyn ddefnyddio adnoddau ehangach Grŵp Bwyd BRASS, sef rhwydwaith o tua 20 o ymchwilwyr bwyd ym Mhrifysgol Caerdydd, ynghyd ag is-adran Ymchwil ac Ymgynghori y Brifysgol. Buont yn ymchwilio i'r anawsterau sy'n wynebu'r diwydiant bwyd ar hyn o bryd a'r ffyrdd y mae gwahanol wledydd yn ymdrin â strategaethau bwyd. A minnau'n Gadeirydd y Bartneriaeth, bûm yn cydweithio'n agos â thîm BRASS i lywio'u cynnydd ar rai adegau penodol a sicrhau bod y Bartneriaeth yn cymryd rhan lawn yn y gwaith hefyd.

3.4 Yna, ar ôl i BRASS gyflwyno'u gwaith gorffenedig i'r Bartneriaeth, cafwyd ystyriaeth ac ymgynghori eang a helaeth. Cynhaliwyd cyfarfodydd i drafod y Strategaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chyda swyddogion o wahanol Adrannau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru – gan ymdrin, er enghraifft, ag addysg, datblygu gwledig, materion yn ymwneud â deiet ac iechyd, ynghyd â datblygu economaidd, caffael a marchnata. Gofynnwyd i'r swyddogion sicrhau bod eu meysydd arbenigedd neilltuol nhw a strategaethau neu gynlluniau gweithredu y llywodraeth yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y Strategaeth.

3.5 Cafodd y Strategaeth ei haddasu yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd ac yna cafodd ei thrafod gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, y Cyfarwyddwr Materion Gwledig ac uwch-swyddogion gan ganolbwyntio ar y cyfeiriad a gynigiwyd yn y Strategaeth. Dilynwyd proses y 'porth i bolisïau' a chafwyd gwasanaeth pobl â gwahanol fuddiannau. Ar ôl ei haddasu, aeth y Strategaeth ymlaen i gael ei thrafod gan y cabinet. Yna, addaswyd y Strategaeth yng ngoleuni'r drafodaeth honno cyn mynd ymlaen i'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Lansiodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig ymgynghoriad dri mis llawn yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Gorffennaf 2010.

**Ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol**

3.8 Cafwyd cyfnod o ymgynghori ar y Strategaeth Fwyd newydd arfaethedig rhwng 6 Gorffennaf 2010 a 28 Medi 2010.

3.9 Cysylltwyd yn uniongyrchol â dros 600 o ymgyngoreion a rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r ymgynghoriad trwy Gwlad (cylchgrawn misol Llywodraeth Cynulliad Cymru am Faterion Gwledig), gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, a thrwy wahanol bapurau newydd rhanbarthol.

3.10 Yn ogystal â thrafod y mater yn y Bartneriaeth a'i his-grwpiau, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ymgynghori â'r cyhoedd yng Ngogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain Cymru, a gwnaed nifer o gyflwyniadau i grwpiau rhanddeiliaid perthnasol yn ogystal â grwpiau'r Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod. Yn ogystal â'r cyfarfodydd cyhoeddus hyn, cynhaliwyd cyfres o seminarau busnes rhanbarthol, trafodaethau bwrdd crwn

a thrafodaethau un-i-un gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys yr undebau ffermio a'r Comisiwn Cynaliadwyedd.

3.11 Derbyniwyd cyfanswm o 102 o ymatebion ffurfiol ac fe gyhoeddwyd crynodeb ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn cefnogi ac yn rhannu'r weledigaeth a nodwyd ar gyfer bwyd yng Nghymru dros y deng mlynedd nesaf a mynegwyd cefnogaeth gref i'r dull gweithredu trawsbynciol a fabwysiadwyd yn y Strategaeth. Roedd cytundeb bras y dylai bwyd fod yn elfen fwy canolog yn yr agenda economaidd a chymdeithasol ehangach ac roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r bwriad i ganolbwyntio ar gysylltiadau rhwng iechyd, addysg, twristiaeth a rhyngweithio rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr.

3.12 Yna, cafodd y Strategaeth ei diwygio yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd. Lansiwyd y Strategaeth gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar 10 Rhagfyr 2010 yn Siop Fferm Cwmcerrig, Gorslas a daeth nifer dda o bobl i'r achlysur.

## 4. Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020

4.1 Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad clir i egwyddorion sylfaenol allweddol **Cynaliadwyedd, Gwytnwch, Cystadleurwydd a Phroffidioldeb.** Mae'n cyflwyno newid mawr ac uchelgeisiol sy'n cynnwys mwy o gydnabyddiaeth i'r system fwyd ehangach wrth benderfynu ar y ffordd orau o lywio'r diwydiant.

4.2 Mae'r Strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth eang o le bwyd yng Nghymru ac mae'n ceisio cynnig ffordd o fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â bwyd. Caiff ei seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gynhyrchu a bwyta bwyd.

4.3 Mae'r Strategaeth yn amlinellu cyfeiriad clir fel y gall diwydiant bwyd Cymru dyfu mewn ffordd gynaliadwy a phroffidiol. Mae'n tallu sylw i'r materion trawsbynciol y sonnir amdaynt yn 1.3. Trwy weithio mewn ffordd integredig fel hyn, y bwriad yw gwneud y system fwyd yn wydn ac annog economi fwyd gadarnach yng Nghymru fel y gall busnesau bwyd gystadlu'n fwy effeithiol gartref a thramor.

### Pum sbardun allweddol

4.4 Er mwyn cael cyfeiriad pendant i'r Strategaeth a'i gwneud yn haws ei gweithredu wedyn, mae'r dyheadau trwy'r Strategaeth hon yn cael eu rhannu'n bum sbardun newid. Disgwylir i unrhyw ymyrraeth mewn un o'r pum sbardun allweddol gyd-fynd â'n pedwar nod. Dyma restr o'r sbardunau newid, a phrif feysydd yr argymhellion ar gyfer pob un:

• **Datblygu'r Farchnad**
- Gwell marchnata er mwyn datblygu marchnadoedd gartref a thramor;
- Datblygu brandiau Cymreig cryfach;
- Hwyluso mynediad i farchnadoedd a hybu marchnadoedd lleol a rhanbarthol; a

- Hybu mentergarwch entrepreneuraidd.

• **Y Diwylliant Bwyd**
- Grymuso dinasyddion a defnyddwyr trwy roi mwy o wybodaeth iddynt;
- Hybu ffyrdd cynaliadwy o reoli galw; a
- Cysylltu diwylliant bwyd a marchnata.

• **Cynaliadwyedd a lles**
- Datblygu dulliau cynhyrchu a chadwyni cyflenwi ecolegol-effeithlon;
- Lleihau effaith gwastraff bwyd; a
- Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu ar gyfer technolegau a dulliau rheoli gwastraff cynaliadwy.

• **Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi**
- Cefnogi mentergarwch;
- Datblygu sgiliau o'r naill ben i'r llall o'r gadwyn cyflenwi bwyd;
- Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu ar gyfer y gadwyn fwyd ac er mwyn rhannu gwybodaeth mewn ffordd effeithlon;
- Cymorth i arloesi a datblygu cynhyrchion arbenigol; a
- Cefnogi cydweithio.

• **Integreiddio**
- Gwneud i'r Strategaeth Fwyd weithio ar bob lefel o Lywodraeth;
- Cyfrannu at newidiadau yn y fframweithiau rheoleiddio; a
- Defnyddio dulliau 'meddal' (nid deddfwriaeth) i annog newid

### 4.5 Crynodeb o brif gyfeiriad y Strategaeth Fwyd

***I.*** *Bydd bwydydd lleol a bwydydd sydd wedi'u brandio'n lleol o Gymru yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo mewn marchnadoedd yng Nghymru, yng ngweddill y DU ac yn ehangach.*

***II.*** *Bydd hunaniaeth bwydydd o Gymru yn cael ei chryfhau trwy set unigryw o ddangosyddion tarddle a fydd yn magu hyder yn rhinweddau bwyd o Gymru.*

***III.*** *Bydd y sector cyhoeddus yn defnyddio pŵer prynu i gefnogi datblygiad strategol y sector bwyd.*

***IV.*** *Bydd diwylliant bwyd Cymru yn cael ei gryfhau a'i ddefnyddio i ddatblygu galw cyson am fwyd o safon sy'n cyfrannu at ddeiet cytbwys iach. Dyma un o gynhwysion pwysicaf system fwyd gynaliadwy.*

***V.*** *Bydd twristiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig at farchnata a hyrwyddo cynhyrchion bwyd o Gymru.*

***VI.*** *Mae'r Strategaeth Fwyd yn pwysleisio ac yn derbyn bod angen i gadwynau bwyd cynaliadwy fod ag effeithlonrwydd ecolegol yn rhan ganolog ohonynt.*

VII. *Bydd y sector bwyd yn cael ei annog i fod yn gyfrifol am gyfrannu cymaint â phosibl at liniaru ac addasu'r newid yn yr hinsawdd yn ddomestig.*

VIII. *Mae'r Strategaeth Fwyd yn cydnabod cyfrifoldebau moesol Cymru o fewn system fwyd fyd-eang. Bydd hyn yn cynnwys wynebu'r her o sicrhau bod pawb, waeth beth yw eu hincwm, yn gallu cael y deiet cytbwys, iachus sydd ei hangen arnynt.*

IX. *Derbynnir bod cadwynau cyflenwi sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau agored a theg yn sail i system fwyd gynaliadwy.*

X. *Bydd camau cydweithredu yn cael eu meithrin ar draws y cadwynau cyflenwi, a bydd yr egwyddorion a amlinellir yn y Strategaeth yn cael eu hyrwyddo'n eang ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd.*

XI. *Bydd effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi yn cael ei phwyso a mesur yn ehangach yn hytrach na'i hystyried yn nhermau cadwyn cost-a-budd economaidd yn unig a dylai gynnwys ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol hefyd.*

XII. *Dylid gwella galluoedd trwy'r gadwyn gyflenwi gyfan fel y gall y sector ddarparu cynhyrchion sy'n gystadleuol, sy'n cyfateb i anghenion defnyddwyr ac sy'n cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy.*

XIII. *Bydd polisïau bwyd yn cael eu hintegreiddio i mewn i feysydd polisi perthnasol a dylai hyn fod yn elfen allweddol o weithrediad llwyddiannus y Strategaeth.*

XIV. *Bydd polisïau bwyd yn cael eu hintegreiddio ar wahanol lefelau o lywodraethu fel eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd ac fel bod yr egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon ac a hyrwyddwyd yn y Strategaeth yn cael eu cofleidio ar draws cyd-destun y polisi.*

## 6. Y Camau Nesaf : Rhoi'r Strategaeth ar Waith

6.1 Mae gwaith ar y gweill eisoes i ddatblygu Cynllun Cyflawni mewn partneriaeth â'r diwydiant i bennu'r camau angenrheidiol i lywio'r Strategaeth ac i fwrw ymlaen â'r newidiadau angenrheidiol. Er mwyn gweithredu, mae angen (a) datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn a thryloyw; (b) cydweithio'n agos â phrosesau eraill i ddatblygu dangosyddion; (c) creu proses ar gyfer adnewyddu'r Strategaeth; a (d) gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant a rhanddeiliaid allweddol eraill i bennu eu rhan nhw yn y gwaith. Bydd angen i'r Cynllun Cyflawni fod wedi canfod pa adnoddau sydd ar gael ar gyfer y camau y rhoddir blaenoriaeth iddynt dros amser a phenderfynu ar gerrig milltir allweddol. Heb fynd ati fel hyn i wneud cynllun busnes penodol, gallai'r gwaith o weithredu'r Strategaeth golli ffocws.

6.2 Mae'r Strategaeth yn pennu'r cyfeiriad cyffredinol a bydd yn gweithredu fel fframwaith cyffredin a fydd yn help wrth gyflawni cynlluniau gweithredu

presennol sy’n ymwneud â bwyd, fel y rhai garddwriaeth, cig coch, bwyd organig, llaeth, cyrchu lleol, twristiaeth fwyd, a physgodfeydd. Os bydd rhai camau o’r cynlluniau hyn heb eu cymryd a’u bod yn gydnaws â’r Strategaeth Fwyd, cânt eu trosglwyddo i’r Cynllun Cyflawni.

6.3 Caiff y Cynllun Cyflawni ei lunio mewn partneriaeth â’r diwydiant a chaiff blaenoriaethau eu pennu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir – 2010-2020. Eisoes, dechreuwyd cynnal cyfarfodydd rhwng swyddogion a chyfarfodydd gydag arbenigwyr a bydd y Bartneriaeth yn galw eto ar randdeiliaid ac unigolion o nifer o wahanol feysydd i gyfrannu at y broses yn y misoedd sydd i ddod.

6.4 Yn 2011, bydd y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar weithredu’r Strategaeth, ac adolygu strwythur yr FDAP ei hunan a’i his-grwpiau er mwyn sicrhau bod ei holl waith yn unol â’r Strategaeth Fwyd. Y nod yw cyhoeddi cynllun i weithredu’r Strategaeth yn 2011 a bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro a’i adolygu’n ofalus gan dalu sylw i ddatblygiadau yn y diwydiant a’r economi.

6.5 Fy mwriad pendant i yw cydweithio ag arbenigwyr ac â swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru i bennu targedau realistig ac ymarferol i gyflawni pwyntiau allweddol y Strategaeth. Credwn y bydd y gwaith hwn, trwy ymgysylltu’n effeithiol ag asiantaethau y tu allan i’r Llywodraeth, yn cael effaith bwysig yng Nghymru yn y degawd sydd i ddod.

**Dr Haydn E Edwards** Cadeirydd y Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod.
2 Chwefror 2011